

Programme Information

Gwybodaeth Rhaglenni

Week/Wythnos 32
August/Awst 3 - 9, 2013

Pages/Tudalennau:

- 2 Eisteddfod Genedlaethol 2013**
Overview of this year's output / Trosolwg o'r ddarpariaeth eleni
- 4 Eisteddfod Genedlaethol 2013**
Focus on the daily live TV programmes / Golwg ar y rhaglenni teledu byw dyddiol
- 6 Pobol y Cwm**

Places of interest / Llefydd o ddiddordeb

Denbigh/Dinbych	2, 4
Benllech	4
Cardigan/Aberteifi	4
Carmarthen/Caerfyrddin	4
Llanrwst	4
Vale of Glamorgan/Bro Morgannwg	4

Follow us on Twitter to keep up with all the latest news from BBC Cymru Wales
@BBCWalesPress

Dilynwch ni ar Twitter am y newyddion diweddaraf gan BBC Cymru Wales
@BBCWalesPress

Pictures are available at www.bbcpictures.co.uk / Lluniau ar gael yn www.bbcpictures.co.uk

NOTE TO EDITORS: All details correct at time of going to press, but programmes are liable to change. Please check with BBC Cymru Wales Communications before publishing.

NODYN I OLYGYDDION: Mae'r manylion hyn yn gywir wrth fynd i'r wasg, ond mae rhaglenni yn gallu newid. Cyn cyhoeddi gwybodaeth, cysylltwch â'r Adran Gyfathrebu.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL SIR DDINBYCH A'R CYFFINIAU 2013

Sadwrn, Awst 3 - Gwener, Awst 9, BBC Cymru ar S4C, BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales

Saturday, August 3 - Friday, August 9, BBC Wales on S4C, BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2013

Sadwrn/Saturday, 9.30am; Sul/Sunday, 10.30am; Llun/Monday-Gwener/Friday, 10am, BBC Cymru ar S4C

Mercher/Wednesday, Gwener/Friday, 6.35pm, BBC Cymru ar S4C

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2013: MWY O'R MAES

Sadwrn/Saturday, 8.30pm; Sul/Sunday, 6.40pm; Llun/Monday, Mawrth/Tuesday, Iau/Thursday, 8.25pm & 9.15pm, BBC Cymru ar S4C

OEDFA'R EISTEDDFOD

Sul/Sunday, 9.30am, BBC Cymru ar S4C

Y BABELL LÊN

Llun/Monday, Mawrth/Tuesday, Iau/Thursday, 10pm; Gwener/Friday, 10.40pm, BBC Cymru ar S4C

bbc.co.uk/eisteddfod

[#steddfod2013](https://twitter.com/bbceisteddfod)

Dyffryn Clwyd fydd y gyrchfan genedlaethol ddechrau Awst wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ddod i Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, a bydd gan BBC Cymru Wales ddarpariaeth estynedig o'r pafiliwn, o'r maes ac o'r digwyddiadau ymylol ar deledu, radio ac ar-lein drwy gydol yr wyl.

Dewi Llwyd fydd yn rhoi blas o ddigwyddiadau'r dydd ar S4C bob nos yn **Mwy o'r Maes**, heblaw nos Fercher a nos Wener pan fydd y darllediadau llawn o'r cystadlu yn fyw o lwyfan y Pafiliwn yn parhau.

"Mi fydd hi'n braf iawn cael mynd yn ôl i ardal Dinbych," meddai Dewi, "mae'r safle yn ymyl pentref Llandyrnog yn Nyffryn Clwyd yn un godidog. Mi fues i'n cyflwyno o'r Eisteddfod Genedlaethol am bymtheng mlynedd, ond dydw i ddim wedi gwneud hynny bellach ers degawd, felly rydw i'n edrych ymlaen yn aruthrol at gael ail-afael ynddi."

Nia Roberts fydd yn ein croesawu i'r rhaglen deledu fyw ddyddiol, a bydd Iolo ap Dafydd, Hanna Hopwood ac Iwan Griffiths hefyd yn cyd-gyflwyno'r cystadlu o'r pafiliwn drwy'r dydd yn ogystal a rhoi sylw i'r holl amrywiaeth o ddigwyddiadau o gwmpas y maes.

Ar BBC Radio Cymru, Hywel Gwynfryn a Rhiannon Lewis fydd yng ngofal y darllediadau byw, gyda Stifyn Parri yn crwydro'r maes yn sgysio â'r eisteddfodwyr. Yn ogystal bydd rhaglen **Dafydd a Caryl** yn cynnig dwy awr o hwyl a cherddoriaeth yn fyw o'r maes carafanau bob bore, bydd trafodaeth fyw o'r maes ar bynciau llog y dydd yn **Taro'r Post** gyda Garry Owen, bydd uchafbwyntiau'r **Babell Lân** i goroni'r cyfan, Beti George fydd yn rhoi blas o'r Brifwyl gyfan bob nos yn **Tocyn Wythnos**. Yn ogystal bydd rhaglenni **C2** yn cynnwys blas o rai o gigs roc a phop yr Eisteddfod.

Bydd yr Eisteddfod hefyd yn cael sylw yn ystod rhaglenni BBC Radio Wales, gyda darllediadau byw yn rhan o raglenni dyddiol yr orsaf a Sian Pari Huws yn cyflwyno rhaglen yn crynhoi uchafbwyntiau'r wythnos.

Ar bbc.co.uk/eisteddfod bydd llif fideo byw o'r Pafiliwn bob dydd trwy'r dydd er mwyn dilyn y cystadlu i gyd yn fyw ar gyfrifiaduron a dyfeisiau eraill. Eleni hefyd bydd sylwebaeth Saesneg ar gael ar y gwasanaeth yma - bydd clipiau fideo uchafbwyntiau o'r buddugwyr, rhestr o holl ganlyniadau llwyfan, blog byw fydd yn cynnwys y newyddion diweddaraf, cyfweiliadau gyda'r prif enillwyr gan gynnwys clipiau sain a fideo, ac orielau lluniau. Bydd elfennau o'r wefan yn ddwyieithog eleni, gyda gwybodaeth yn Saesneg a dolenni i gynnwys perthnasol i ddefnyddwyr di-Gymraeg.

The Vale of Clwyd is the place to be as the National Eisteddfod comes to Denbighshire and District in early August. The BBC will have extended coverage from the Eisteddfod Pavilion, as well as from the festival fringe events on TV, radio and online.

*Dewi Llwyd will present a flavour of the day's events on S4C in **Mwy o'r Maes** every evening apart from Wednesday and Friday when live broadcasts from the Pavilion's competitions will continue into the night.*

Nia Roberts will welcome us each morning to the daily live TV show, and Iolo ap Dafydd, Hanna Hopwood and Iwan Griffiths will co-present the programme featuring live competitions from the Pavilion throughout the day as well as offering a flavour of the numerous other events.

*On BBC Radio Cymru, Hywel Gwynfryn and Rhiannon Lewis will look after live coverage from the Pavilion, and Stifyn Parri will be roaming the 'maes' chatting with eisteddfod-goers. In addition, the **Dafydd a Caryl** programme will offer two hours of fun and music live from the festival caravan site every morning, there'll be a live debate on the issues of the day in **Taro'r Post** with Garry Owen, daily highlights from the Literary Pavilion, and Beti George will give a flavour of the whole festival every night in **Tocyn Wythnos**. The nightly **C2** programmes will also include performances and more from the Eisteddfod gigs.*

*Llinos Jones will be in Denbigh throughout the week to give BBC Radio Wales listeners a taste of everything that's happening on the Eisteddfod field and keeping them up to date with the day's events and stories. You can catch Llinos every day on the **Jason Mohammad** and **Louise Elliott** shows and Bethan Elfyn will be talking to some of the bands and musicians playing the Eisteddfod's Maes B, introducing live acoustic performances on Louise Elliott's show.*

***bbc.co.uk/eisteddfod** will have a live video stream from the Pavilion all day every day, accessible on computers and other devices. This year there will also be an option to listen to English language commentary as part of this service. In addition, there will be video clip highlights of the winners, a list of all the stage results, a live blog including the latest news and there'll be interviews with the main winners including audio, video clips and photo galleries. Elements of the website will be bilingual, with information available in English and links to relevant content for non-Welsh speakers.*

Melfyn Clwyd Roberts

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2013

Sadwrn, 9.30am; Sul, 10.30am; Llun-Sadwrn, 10am, BBC Cymru ar S4C

Saturday, 9.30am; Sunday, 10.30am; Monday-Saturday, 10am, BBC Wales on S4C

Fel rhan o ddarpariaeth estynedig BBC Cymru Wales o Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013, bydd y cystadlu a'r seremoniau i'w gweld bob dydd ar S4C gyda'r tîm cyflwyno Nia Roberts, Iolo ap Dafydd, Hanna Hopwood ac Iwan Griffiths. Byddant hefyd yn cynnig blas o'r digwyddiadau Eisteddfodol eraill o gwmpas y maes.

Nia Roberts fydd yn ein croesawu i'r rhaglenni byw dyddiol bob bore. Mae gan Nia, sydd bellach yn byw ym Mro Morgannwg ond sy'n dod yn wreiddiol o Benllech, Ynys Môn, gysylltiad hir â darlledu o'r Brifwyl ac mae ganddi atgofion melys o'r tro diwethaf yr ymwelodd y Genedlaethol â Sir Ddinbych:

“Roeddwn yn Eisteddfod Dinbych a'r Cyffiniau yn 2001, yn cydgyflwyno'r rhaglen uchafbwyntiau nosweithiol gyda Dewi Llwyd, fel mae'n digwydd. Bydd yn braf cydweithio efo Dewi eto.

“Yr atgof sydd gen i ydi cadeirio 'Llygad y Dydd' - Mererid Hopwood - am ei hawdl "Dadeni". Mi ges i afael ar y cyfansoddiadau yn syth wedi'r seremoni ac fe darodd ei llinellau yn disgrifio cryndod a gwyrth y baban yn y groth, "Y gloyn ewn tu mewn i mi" fi fel bwled. Dyna roeddwn i eisiau yn fwy na dim ar y pryd. A diolch i Dduw, erbyn yr Awst canlynol, yn ystod wythnos Eisteddfod Ty Ddewi 2002, fe aned Nel fach.”

Merch bardd y gadair yn 2001 ydy Hanna Hopwood, a gafodd ei magu yn Llangynnwr ger Caerfyrddin, ac mae hithau'n ymuno â'r tîm cyflwyno o'r Eisteddfod am y tro cyntaf eleni. Mae Hanna'n cofio'r Eisteddfod y flwyddyn honno yn glir am resymau amlwg:

“Oni'n 12 mlwydd oed a nai fyth anghofio mam yn sefyll yn y pafiliwn ac yn dod y ferch gyntaf i ennill y Gadair. Odd dim syniad gyda ni bo hi wedi ennill tan y noson gynt, oni ddim hyd yn oed yn gwbod bo mam yn gallu cynganeddu a dweud y gwir! Odd e'n brofiad cyffrous iawn a mi oeddwn i dan deimlad a dweud y gwir - mae'n rhywbeth mawr i gadw cyfrinach fel yna, hyd yn oed os mai dim ond am un diwrnod odd e!”

Nid hwn fydd y tro cyntaf i Iolo ap Dafydd gyflwyno rhaglenni'r Eisteddfod, ac mae ganddo yntau atgofion niferus ac amrywiol iawn o fynychu'r brifwyl dros y blynyddoedd:

“Mi roedd dad a mam wastad yn ymweld â'r Genedlaethol o leiaf un diwrnod,” meddai Iolo, sy'n dod yn wreiddiol o Ddyffryn Conwy, 'a dwi'n cofio'r glaw a'r mwd mawr yn Rhuthun yn 1973. Mae gen i gof hefyd o nhad (Dafydd Parri awdur llyfrau'r Llewod) yn cael ei urddo a'r wisg wen ym Mangor yn 1971 - a dwi hefyd yn cofio Eisteddfodau Llanelli, Llanbedr goch, Llanrwest a Bae Colwyn, gan fod fy chwaer Gwawr gyda'i siop lyfrau yno. Ar wahân i hynny, mae gen i gof

niwlog o ambell Steddfod arall ble wnes i fwynhau digwyddiadau'r hwyr yn hytrach na'r dydd yn ormodol!

"Mae'r Eisteddfod yn wyl ddiwylliannol bwysig, ac yn haeddu cael ei chynabod felly y tu hwnt i Gymru. Er, mae angen i'r Cymry hefyd ei gwneud yn ddiddorol i bobl eraill."

Hefyd yn aelod o'r tîm cyflwyno dyddiol eleni am y tro cyntaf y mae Iwan Griffiths, y newyddiadurwr chwaraeon o ardal Aberteifi. Dydy o ddim yn brin o atgofion Eisteddfodol 'chwaith:

"Fues i'n gweithio yn y Steddfod am rhyw ddwy neu dair blynedd gyda chwmni hufen iâ," meddai Iwan. "Rodd e'n waith caled ond yn lot fawr o hwyl. Un flwyddyn, fe weithies i o'r diwrnod cyntaf tan y diwedd gan aros hefyd mewn pabell ym Maes B. Fyth eto!"

"Dwi di cystadlu tipyn dros y blynydde, yn amlach na pheidio fel rhan o gôr. Rhwng Ysgol Gerdd Ceredigion a Cywair, ry ni di cael tipyn o lwyddiant. Dwi di ennill yn y Brifwyl ar amryw achlysur hefyd gyda dawnswyr Nantgarw, ac wedi cipio'r wobr gyntaf tra'n dawnasio yn y gystadleuaeth gloccio."

As part of the extensive provision from BBC Cymru Wales of the Denbighshire and District National Eisteddfod 2013, the competing and ceremonies can be seen daily on S4C, presented by Nia Roberts, Iolo ap Dafydd, Hanna Hopwood and Iwan Griffiths. They also offer a taste of the many other events around the festival.

Nia Roberts will welcome viewers to the Eisteddfod each morning. Nia, who now lives in the Vale of Glamorgan but is originally from Benllech, Anglesey, has some experience of broadcasting from the festival and has fond memories of the last time the Eisteddfod visited Denbighshire:

"I was at the Eisteddfod in Denbigh in 2001, presenting the evening highlights programme with Dewi Llwyd, as it happens. It will be nice to work with Dewi again.

"The memory I have is of Mererid Hopwood winning the chair for her poem "Dadeni" ("Renaissance"). I got hold of a copy immediately after the ceremony and was struck by her lines describing the sensation and miracle of carrying a baby in the womb. The words hit me like a bullet. That's what I wanted more than anything at the time. And, thank God, by the following August, during the Eisteddfod week in 2002, my daughter Nel was born."

The daughter of the chair-winning poet in 2001, Hanna Hopwood, joins the presentation team for the first time this year. Hanna remembers clearly that year's Eisteddfod for obvious reasons:

"I was 12 years old and I will never forget mum standing in the pavilion, the first woman to win the Chair. We had no idea she had won until the night before! It was a very exciting experience and very emotional to be honest - it's such a big thing to keep a secret like that, even if only for

one day!"

Melfyn Clwyd Roberts

POBOL Y CWM

Llun-Gwener, Awst 5-9, BBC Cymru ar S4C, 8pm
Monday-Friday, August 5-9, BBC Wales on S4C, 8pm
bbc.co.uk/pobolycwm

Wrth i effeithiau digwyddiadau'r wythnos gynt dreiddio drwy'r cwm, mae Sheryl dan bwysau gan sawl carfan i fynd â Wil at yr heddlu, ond all unrhyw dda ddod o hynny?

Mae pethau rhwng Cadno ac Eifion yn mynd o ddrwg i waeth. Pan chwala Eifion gynlluniau Cadno i fynd allan am y noson gyda Gwyneth, does dim arwydd y gall pethau wella. Yn wir, mae pethau'n gwaethygu ymhellach.

Mae Eileen yn poeni'i henaid nad ydi Sioned yn dygymod yn dda â'i chyflwr a cheisia ei helpu.

Mae Hywel a Dai yn recriwtio Ed i'r tîm rygbi ac mae Ed ar ben ei ddigon ar ôl y sesiwn ymarfer cyntaf.

Ac mae Anita'n awyddus i ddiolch i Dai am ei letygarwch ond a oes peryg i bethau fynd yn rhy bell?

As the fall out from the previous week's events continues, Sheryl is under pressure from all angles to take Wil to the police, but can any good can come of it?

Things between Eifion and Cadno go from bad to worse and when he wrecks her plans for a night out with Gwyneth, there's no sign that things will ever get better. In fact, they take a darker turn.

It becomes clear to Eileen that Sioned isn't coping well with her condition and she tries to to help her.

Hywel and Dai persuade Ed to join the rugby team and he's on top of the moon after his first training session.

And Anita is keen to thank Dai for his hospitality, but will he get more than he bargained for?

Sioned Gwyn